

PWYLLGOR CYNLLUNIO

5 GORFFENNAF 2022

PRESENNOL Councillor W.T. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	P. Cooper	A.C. Jones	B.D.J. Phillips
E. Skinner	G.B. Thomas		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

J.M. Charles	M. Donoghue	N. Evans	J.K. Howell
J.D. James	M.J.A. Lewis	D. Owen	R. Sparks
D.E. Williams			

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn y Siambr):

J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth);
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr cofnodion].

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn rhithwir):

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democratiadd.

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP ac o bell:- 10:00yb - 12:00yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Davies a M. Thomas

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
M.J.A. Lewis	3: PL/03189 – Adeiladu pedwar byngalo dormer a chreu mynediad newydd gan gynnwys dymchwel y breswylfa bresennol ac adeiladau allanol cysylltiedig, Bryn Bedw, Rhydargaeau, Caerfyrddin, SA32 7DT	Mae'n adnabod dau o'r gwrthwynebwyr.

4. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/01654	Byngalo ar wahân a garej ar dir sy'n rhan o Gwelfor, Heol Llanelli, Trimsaran, Cydweli, SA17 4AG
PL/02561	Dau dŷ ar wahân ar dir oddi ar Drem y Cwm, Llangynin, Caerfyrddin, SA33 4JQ Cafwyd sylw gan yr aelod lleol a fynegodd bryderon ynghylch sut yr oedd y datblygiad ehangach wedi datblygu dros y blynyddoedd a gofynnodd am i'r datblygiad hwn sicrhau bod y cyfraniad datblygiad tai fforddiadwy yn cael ei wneud (A106). Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu a'r Rheolwr Blaen-gynllunio i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.
PL/03189	Adeiladu pedwar byngalo dormer a chreu mynediad newydd gan gynnwys dymchwel y breswylfa bresennol ac adeiladau allanol cysylltiedig, Bryn Bedw, Rhydargaeau, Caerfyrddin, SA32 7DT (SYLWER: Gan fod y Cynghorydd M.J.A Lewis wedi datgan buddiant yn y cais hwn eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid y cais hwn). Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio. Roedd y rheini'n cynnwys pryderon bod y pentref yn cael ei lethu gan ddatblygu, gan roi mwy o straen ar ei seilwaith. Yr effaith ar gapasiti'r ysgolion cynradd a meithrin cyfagos heb unrhyw gynlluniau i ehangu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol ac mae'r feithrinfa yn llawn. Yr effaith ddibwys ar y Gymraeg a nodwyd yn natganiadau'r ymgeisydd a oedd yn ddi-sail. Yn ogystal, byddai'r datblygiad yn ychwanegu at y traffig ar yr A485 sydd eisoes yn uchel, y problemau gwelededd a'r cerbydau sy'n goryrru a byddai cael mwy o fynediad i'r ffordd yn gwaethygu'r sefyllfa bresennol hon. Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

CHAIR

DATE